OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 887 (Cy. 215)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Gyrchfannau) (Gweithgareddau Rhagnodedig) (Cymru) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *7 Medi 2017* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *11 Medi 2017* |
| *Coming into force - -* | *6 Hydref 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 49B(3), 49B(4) a 89(4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**):

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Gyrchfannau) (Gweithgareddau Rhagnodedig) (Cymru) 2017.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 6 Hydref 2017.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "blwyddyn academaidd" ("*academic year*") yw unrhyw gyfnod sy'n dechrau ar 1 Awst neu ar ôl hynny ac sy'n dod i ben ar 31 Gorffennaf neu cyn hynny.

### Gweithgareddau Rhagnodedig

**3.**—(1) At ddibenion adran 49B(2) a 49B(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, ar gyfer y flwyddyn academaidd yn union ar ôl y flwyddyn academaidd pryd y peidiodd y myfyriwr â bod yn fyfyriwr yn y sefydliad perthnasol, mae'r gweithgareddau rhagnodedig fel a ganlyn—

(a) unrhyw ffurf o addysg a wneir gan y myfyriwr;

(b) unrhyw ffurf o gyflogaeth a wneir gan y myfyriwr; ac

(c) unrhyw ffurf o hyfforddiant a wneir gan y myfyriwr.

(**1**) 1992 p. 13. Mewnsodwyd adran 49B gan adran 80 o Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 (p. 26). Diwygiwyd adran 89(4) gan adran 29 o Ddeddf Addysg Bellach a Hyfforddiant 2007 (p. 25) a pharagraffau 6 ac 11 o Atodlen 1 iddi.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Alun Davies*
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru.

7 Medi 2017

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 49B o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn galluogi Gweinidogion Cymru i rannu "gwybodaeth am gyrchfannau" â sefydliadau addysg bellach yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â hi y mae gweithgareddau myfyriwr sydd wedi ymadael â sefydliad addysg bellach yng Nghymru yn cyfrif fel "gwybodaeth am gyrchfannau" at ddibenion adran 49B(2) ac adran 49B(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Mae rheoliad 3 yn nodi'r gweithgareddau a'r cyfnod amser y mae rhaid iddynt ddigwydd ynddo.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.